

Est. 1941
FEDERATION OF MASTER BUILDERS
fmb.org.uk

# Ailadeiladu Cymru

## Ffederasiwn Meistri Adeiladu Cymru

## Rhaglen i Lywodraeth Cymru 2021 – 2026

fmb.org.uk

**Bydd gan y diwydiant adeiladu ran hanfodol i'w chwarae i ailadeiladu economi mwy ffyniannus a mwy gwyrdd wrth i ni adfer Cymru o effeithiau'r pandemig Cofid.**

Mae ein cymunedau yn ddibynnol ar y sector i ddarparu gyrfaeodd sy'n talu cyflog da i bobl, tra fod cymdeithas yn dibynnu ar adeiladwyr i gyflawni prosiectau sy'n ein cadw'n ddiogel, yn iach a llewyrchus. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyd-weithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o effaith bositif y diwydiant adeiladu ar Gymru.

## Adeiladu mwy o dai trwy fusnesau bach a chanolig (BBaChau)

Rhaid diwygio'r system gynllunio i roi mwy o gyfleoedd i adeiladwyr BBaChau i adeiladu cartrefi o fewn eu cymunedau. Bydd gwneud hyn yn arwain at gynnydd mewn cartrefi fforddiadwy ac yn rhoi hwb mawr i economïau lleol. Mae'r broses gynllunio wedi dod yn gynyddol gymhleth a chostus sydd wedi arwain at ostyngiad yn y nifer ac allbwn adeiladwyr tai BBaChau. Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gosod diffiniad lleol yn hytrach na chenedlaethol i 'ddatblygiad mawr' o fewn polisi cynllunio. Mae dynodi safle fel 'datblygiad mawr' yn rhoi gofynion cynllunio llawer uwch ar safle. Yn bresennol, diffinir 'datblygiad mawr' fel unrhyw safle sy'n cynnwys 10 o dai neu fwy. Dyw un trothwy i Gymru gyfan ddim yn rhoi ystyriaeth deg i anghenion tai lleol ac amodau'r farchnad dai yn lleol.
- Cynyddu adnoddau i awdurdodau cynllunio lleol naill ai trwy fuddsoddiad uniongyrchol neu trwy ad-drefnu gwasanaethau cynllunio ledled Cymru.
- Darparu mynediad i gyllid trwy Fanc Datblygu Cymru cyn fod caniatad cynllunio wedi cael ei warantu.
- Bod yn fwy gwyliadwrus o effaith cronnol rheoliadau ar BBaChau trwy gymryd agwedd mwy cwmpasol i reoliadau a'u heffaith ar y sector.

## Sicrhau fod BBaChau yn chwarae rhan ganolog o fewn y chwyldro gwyrdd

Mae tai yn gyfrifol am tua chwarter o'n hallyriadau carbon. Os ydym am gyrraedd ein rhwymedigaeth i fod yn wlad ddi-garbon erbyn 2050, mae angen i'n cartrefi ddefnyddio llai o egni a chadw egni'n fwy effeithlon. Bydd angen gwneud gwaith ôl-osod ar 50,000 o dai presennol yn flynyddol fydd yn creu 12,000 o swyddi newydd o fewn y diwydiant erbyn 2028. Bydd hyn yn dipyn o sialens, ond hefyd yn gyfle euraidd. I alluogi BBaChau i wneud y mwyaf o'r cyfle, dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddatblygu piblinell clir o waith a chyfathrebu'r cyfleodd yn glir ac yn gryno.
- Seilio'r rhaglen gyda pholisi a buddsoddiad sefydlog, cryf a chyson. Nid oes cysondeb wedi bod yn y maes yma yn y gorffennol sydd wedi arwain at amharodrwydd y diwydiant i fentro i'r farchnad newydd yma ac i ailsgilio.
- Cynnal safonau uchel o waith trwy orfodi safonau a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru (megis PAS) ynghyd ag achrediad TrustMark. Rhaid cynnig cefnogaeth ddigonol i fusnesau BBaChau i gyflawni'r safonau yma.

## Gwella a chynyddu gweithlu'r diwydiant adeiladu



Mae na fwlch sgiliau'n bodoli o fewn y diwydiant adeiladu mewn crefftau traddodiadol yn ogystal a diffyg defnydd o sgiliau'r "dyfodol" (e.e. digidiol, deallusrwydd artiffisial a dulliau modern o adeiladu). Mae gan y sector broblem o ran delwedd, gyda gyrfa ym maes adeiladu yn aml yn cael ei ystyried fel y dewis olaf. Nid oes digon o ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o'r rolau sydd ar gael ac nid yw'r sector yn eu hatynu, yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod a'n cymundeau BAME. Er mwyn helpu i fynd i'r afael a'r materion yma, dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau cydraddoldeb o ran parch gyda'r byd academaidd trwy gynyddu cyllid addysg alwedigaethol adeiladu.
- Asesu ac yna mynd i'r afael a chyfraddau uchel o ddysgwyr sydd yn dechrau cyrsiau Addysg Bellach adeiladu ond eto sydd ddim yn diweddu mewn swydd o fewn y diwydiant adeiladu.
- Helpu i wella ymwybyddiaeth y diwydiant o'r cyfleoedd sy'n dod o fuddsoddi yn sgiliau'r "dyfodol".
- Helpu i gynyddu amrywiaeth o fewn y sector trwy asesu a mynd i'r afael a rhwystrau sy'n gwynebu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**12,000 o swyddi newydd**



**Bydd angen gwneud gwaith ôl-osod ar 50,000 o dai yn flynyddol fydd yn creu 12,000 o swyddi newydd o fewn y sector erbyn 2028.**




**Mae tai yn gyfrifol am tua chwarter o'n hallyriadau carbon.**

**Os ydym am gyrraedd ein rhwymedigaeth i fod yn wlad ddi-garbon erbyn 2050, mae angen i'n cartrefi ddefnyddio llai o egni a chadw egni'n fwy effeithlon.**

FEDERATION OF MASTER BUILDERS

Est. 1941

fmb.org.uk



Mae prif ofynion y ddogfen yma yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg o aelodau FMB Cymru a gynhaliwyd rhwng 18 Chwefror a 2 Mawrth 2021.

## Ynglyn a Ffederasiwn y Meistri Adeiladu

Ffederasiwn y Meistri Adeiladu yw'r gymdeithas fasnach mwyaf o fewn diwydiant adeiladu'r DU gan gynrychioli miloedd o gwmnïau ledled Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Cafodd ei sefydlu yn 1941 i amddiffyn buddiannau cwmnïau adeiladu maint bach a chanolig. Mae Ffederasiwn y Meistri Adeiladu yn sefydliad annibynnol a di elw ac yn lobio ar ran aelodau ar lefel cenedlaethol a lleol.

Am fwy o wybodaeth am yr FMB ewch i **www.fmb.org.uk**

**@fmbuilders**

**@federationofmasterbuilders**

**fmb.org.uk**